CYNGOR CYMUNED LLANWNDA

COFNODION
MAWRTH 2013

DYDDIAD	Nos Fercher, 20fed Mawrth
AMSER	7.00pm
LLEOLIAD	**RHOSTRYFAN**
AELODAU'N BRESENNOL	Elin Evans, Michelle Williams, Elwyn Jones, Nerys Evans, Gwilym V.Thomas (Cad), Tom Ellis, Meurig Williams, Jason Hunt

1.	**Croeso**
2.	**Ymddiheuriadau** Aeron M.Jones, Gwilym L.Williams
3.	**Datgan Buddiant**
4.	**Cadarnhau cofnodion** Ychwanegu enwau aelodau oedd yn bresennol.
5.	**Materion i'w trafod:** a. MW – Rhes Ganol – lôn wedi'i malurio – clerc i gysylltu efo Tai Cymunedol. Clerc i fynd yn ol eto. b. RhO- tyllau ar y ffyrdd – llythyr at yr Adran Briffyrdd c. NE – mater cynllunio – dwy adwy wedi'u hagor yn Rhos Isaf, cais cynllunio i mewn ond does dim penderfyniad wedi'i wneud. d. GVT – arwydd ger Bodfan ddim yn gweithio. e. EE – Ty Rhos – damwain – arwydd yn nodi cornel f. NW – arwyddion solars g. MW – giat steshion Rhos a slab concrit i osod y fainc h. MW – cynllun safe roads in the community – palmant rhwng Jericho a'r neuadd (Dafydd Wyn Williams) i. AMJ – tir ger Mynwent Cefnfaes – clerc efo rhai llythyrau ac ati i sylw'r aelodau j. Polyn BT – Rhos Isaf – clerc i holi BT k. ElJ – llwchfeydd eira – cyngor ddim wedi dod yno o gwbwl. Oes gan y cyngor cymuned hawl i glirio lonydd? l. GLW – Pont Caer Moel – gwrych i fyny at Dolellog
6.	**Derbyn Adroddiadau** Lein Bryngwyn – gwaith yn parhau, gobeithio y bydd wedi'i gwblhau erbyn ddiwedd y mis. **Cyfarfod Pecynnu'r Profiad,** Antur Nantlle, 8fed Mawrth – Elwyn Jones a'r clerc wedi mynychu cyfarfod efo Robat Jones a Kelvin Roberts i arwyddo'r ffurflenni i ymgeisio am y grant. Bwriedir rhannu'r grant o £20k rhwng Llanwnda, Dyffryn Nantlle a Dinas Dinlle. Bydd rhai elfennau, megis logo ac ati, yn cael ei rannu, ond gobeithir wedyn y bydd oddeutu £4-5k ar gael i Llanwnda hyrwyddo Lein Bryngwyn a'r cyffiniau.
7.	**Is-bwyllgorau**

8.	**Materion Ariannol** Cyfri Cadw: Cyfri Siec: Taliadau: Cyflog/costau/clerc – mis Chwefror Cyllid y wlad John Dryhurst Roberts - archwilio Cytunwyd i dalu ail daliad i I.T.Davies. Designer Signs – arwyddion brown Lein Bryngwyn Derbyniwyd anfoneb am y gwaith i gyd, er mwyn i'r clerc gael gwneud cais i Tidy Towns am y grant cyn ddiwedd y mis. Clerc wedi hawlio £14k ar 13.03.13, felly bydd £15,400 yn weddill i'w hawlio ar ddiwedd y mis. Clerc wedi cyfarfod efo Roger Dale, cynrychiolydd Tir a Môr er mwyn iddo archwilio'r gwaith sydd wedi'i wneud ar Lein Bryngwyn. Cafwyd siec am £20,000.00 yn dilyn yr ymweliad. Cytunwyd yn wreiddiol i Tir a Môr dalu £21k, felly mae £1k yn weddill i'w dalu. Eglurodd y clerc falle y bydd costau ychwanegol oherwydd ein bod wedi gorfod creu 'French drain' ar ddarn o'r lein – mae Roger yn mynd i ystyried hyn maes o law. Dyma wir sefyllfa'r cyfrifon: Yn y banc: £20,821.22 Siec heb ei chyflwyno: £12,000 Grantiau i gyrraedd y banc: £30,400.00 Biliau eto i ddod yn ychwanegol i'r rhai sydd wedi'u rhestr o dan eitem Taliadau uchod (8): £19,235.10. Ond bydd elfen TAW yn cael ei hawlio'n ôl gan y cyngor, sydd ar y funud yn cael ei amcangyfrif fel £9,400 Felly gwir falans, ar ddiwedd Mawrth dyle fod oddeutu: £28,700 (swm yma yn amcangyfrif yn unig, oherwydd fod angen checio'r cyfrifon yn fanwl ac efallai y bydd biliau ychwanegol yn cyrraedd ar ôl paratoi'r agenda yma)	 5820.83 15000.39 418.67 98.40 60.00 12,000.00 60.00
9.	**Materion Cynllunio** C13/0180/24/LL – 6 Bro Wyled, Rhostryfan – ail-wampio'r waliau presennol, ail godi waliau newydd, rendr, drysau a ffenestri newydd ac ail-doi – angen gofyn pam nad yw'r ceisiadau cynllunio yn y Gymraeg. C13/0194/24/LL – 1, 2, 3, 4, 5 a 6 Llwyn Rhosgadfan – fel uchod	

10.	**Gohebiaeth:** m. Wedi derbyn ebost gan Llyr ab Alwyn yn gofyn wrthym bwyso ar y Cynulliad i egluro be sy'n digwydd efo'r ffordd osgoi n. Wedi derbyn llythyr gan Helen Ellis yn diolch am gefnogaeth i'r parc chwarae o. Cyngor Iechyd Cymunedol – ymateb i'r Gweinidog Iechyd p. Llyfrynau Ombwdsman – copi i bob aelod
11.	**Materion mis nesa** a. EE – ambiwlans, diffyg gwelyau – llythyrau at aelodau seneddol a Chynulliad b. EE – pot blodau c. NE – twll yn y lôn wrth ymyl Capel Wesla d. MW – road sweeper bach bob dydd Llun – mynd rhy gyflym, 7 munud yn Rhosgadfan – Lon Bwmp efo chippings, baw, tyfiant – Robert Lewis/Steffan
12.	**Daeth y cyfarfod i ben am 8.10pm**